

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- | | |
|---|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 1 | Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid
Questions on Local Government to the Finance Minister |
| 2 | Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills |

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Ariannu Awdurdodau'r Heddluoedd yn y Dyfodol Funding of Police Authorities in Future

Q9 Leanne Wood: What recent discussions has the Minister held with police authorities regarding future funding? OAQ0713(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): I have not had any discussions with police authorities about funding beyond the 2006-07 financial year. Policing is not a devolved matter, and future funding is a matter for the Home Secretary.

C9 Leanne Wood: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gydag awdurdodau'r heddluoedd ynghylch eu hariannu yn y dyfodol? OAQ0713(LGP)

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Nid wyf wedi trafod ariannu ar ôl y flwyddyn ariannol 2006-07 o gwbl ag awdurdodau'r heddluoedd. Nid mater sydd wedi'i ddatganoli yw plismona, a mater i'r Ysgrifennydd Cartref yw ariannu yn y dyfodol.

Cynlluniau i Leihau Nifer y Cynghorwyr Sir yng Nghymru Plans to Reduce the Number of County Councillors in Wales

Q10 Glyn Davies: What plans does the Minister have to reduce the number of county councillors in Wales? OAQ0729(LGP)

Sue Essex: I have no such plans, but I have commissioned research into the role and functions of elected members.

C10 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau nifer y cynghorwyr sir yng Nghymru? OAQ0729(LGP)

Sue Essex: Nid oes gennyl ddim cynlluniau o'r fath, ond yr wyf wedi comisiynu ymchwil i'r rôl a swyddogaethau aelodau a etholwyd.

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ0665(LGP), yn ôl.
Question 11, OAQ0665(LGP), was withdrawn.*

Cynlluniau i Leihau Nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru
Plans to Reduce the Number of Local Authorities in Wales

Q12 Glyn Davies: What plans does the Minister have to reduce the number of local authorities in Wales? OAQ0675(LGP)

Sue Essex: None.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ0703(LGP), yn ôl.
Question 13, OAQ0703(LGP), was withdrawn.*

Gwella'r Modd y Cyflwynir Gwasanaethau yn Lleol
Improving the Delivery of Services at the Local Level

Q14 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to improve the delivery of services at the local level? OAQ0670(LGP)

Sue Essex: 'Delivering the Connections', the Assembly Government's five-year action plan for improving public services, was published in June 2005. Incentives for local government such as performance indicators and performance incentive grants are also in place.

C12 Glyn Davies: Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i leihau nifer yr awdurdodau lleol yng Nghymru? OAQ0675(LGP)

Sue Essex: Dim.

C14 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella'r modd y cyflwynir gwasanaethau ar y lefel leol? OAQ0670(LGP)

Sue Essex: Cyhoeddwyd 'Creu'r Cysylltiadau', cynllun gweithredu pum mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus, ym Mehefin 2005. Sefydlwyd hefyd gymhellion i lywodraeth leol megis dangosyddion perfformiad a grantiau cymell perfformiad.

Y Dreth Gyngor yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2006-07
Council Tax in Rhondda Cynon Taf for 2006-07

Q15 Leanne Wood: Will the Minister make a statement on council tax increases in Rhondda Cynon Taf for 2006-07? OAQ0704(LGP)

Sue Essex: The council tax increase for Rhondda Cynon Taf for 2006-07 was 5 per cent. The average increase for Wales was 4.5 per cent.

C15 Leanne Wood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am godiadau yn y dreth gyngor yn Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2006-07? OAQ0704(LGP)

Sue Essex: Cynnydd Rhondda Cynon Taf yn y dreth gyngor ar gyfer 2006-07 oedd 5 y cant. Cyfartaledd y cynnydd yng Nghymru oedd 4.5 y cant.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Questions to the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills

*Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ0785(ELL), yn ôl.
Question 11, OAQ0785(ELL), was withdrawn.*

Toriadau yn Nifer yr Athrawon
Cuts in the Number of Schoolteachers

Q12 Glyn Davies: Will the Minister make a statement on the cuts being made by Welsh

C12 Glyn Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y toriadau a wneir gan

local authorities in the number of schoolteachers? OAQ0804(ELL) awdurdodau lleol Cymru yn nifer yr athrawon? OAQ0804(ELL)

The Minister for Education, Lifelong Learning and Skills (Jane Davidson):

Schools' budgets are distributed by local education authorities out of funding provided by the Assembly Government through the local government revenue settlement. Use of those budgets to employ teachers and other school staff are matters for LEAs, schools and their governors in the light of local circumstances.

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):

Dosberthir cyllidebau ysgolion gan awdurdodau addysg lleol o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad drwy setliad refeniw llywodraeth leol. Mater i AAllau, yr ysgolion a'u llywodraethwyr yw defnyddio'r cyllidebau hynny i gyflogi athrawon a staff eraill i'r ysgolion yn wyneb yr amgylchiadau lleol.

**Dawns yn y Cwricwlwm
Dance in the Curriculum**

Q13 Val Lloyd: Will the Minister make a statement on the provision of dance in the curriculum? OAQ0794(ELL)

C13 Val Lloyd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu dawns yn y cwricwlwm? OAQ0794(ELL)

Jane Davidson: Dance is an integral part of the national curriculum in Wales for all pupils up to the age of 11 and it figures as one of the areas of activity that schools may offer to all pupils while in secondary education.

Jane Davidson: Mae dawns yn rhan annatod o'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru i bob disgrif o dan 11 oed ac mae iddi ei lle fel un o'r gweithgareddau y gall yr ysgolion eu cynnig i bob disgrif yn ystod eu haddysg uwchradd.

**Cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen
The Introduction of the Foundation Phase**

Q14 Helen Mary Jones: Will the Minister make a statement on implications for the structure of primary education following the introduction of the foundation phase? OAQ0779(ELL)

C14 Helen Mary Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y goblygiadau ar gyfer strwythur addysg gynradd ar ôl cyflwyno'r cyfnod sylfaen? OAQ0779(ELL)

Jane Davidson: The foundation phase will introduce a single curriculum for three to 7-year-olds built around 'Desirable Outcomes for Children's Learning before Compulsory School Age' and the national curriculum key stage 1. As is currently the case, having completed that phase of their education, children will then move into key stage 2.

Jane Davidson: Ar gyfer plant rhwng tair a saith oed, bydd y cyfnod sylfaen yn cyflwyno un cwricwlwm sydd â 'Chanlyniadau Dymunol i Addysgu Plant Cyn Oedran Addysg Orfodol' a chyfnod allweddol 1 y cwricwlwm cenedlaethol yn graidd iddo. Ar ôl cwblhau'r cyfnod hwnnw yn eu haddysg, bydd y plant yn mynd ymlaen i gyfnod allweddol 2 yn ôl yr arfer ar hyn o bryd.

**Cyllidebau Ysgolion
School Budgets**

C15 Elin Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb ysgolion? OAQ0761(ELL)

Q15 Elin Jones: Will the Minister make a statement on school budgets? OAQ0761(ELL)

Jane Davidson: Darperir arian ar gyfer

Jane Davidson: Funding for school budgets

cyllidebau ysgol ar sail heb ei glustnodi drwy setliad refeniw llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yn y sefyllfa orau i farnu ar anghenion ac amgylchiadau lleol, ac i ariannu ysgolion yn unol â hynny. Maent yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

is provided on a non-hypotheccated basis through the local government revenue settlement. Local authorities are best placed to judge local needs and circumstances and to fund schools accordingly. They are accountable to their electorates for the decisions that they make.